CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain IONAWR 2025.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Ms N Dafydd, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. J Evans, G Jones, W R Parry, Mrs L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

Oherwydd fod y Cadeirydd a`r Is-Gadeirydd yn absennol Cyng. D T Roberts oedd yn y gadair.

CAEL COFNODION 17eg RHAGFYR 2024 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Adolygu Cyflog y Clerc.
Trafodwyd a pasiwyd i rhoi ychwanegiad o 6.5% + Treth Incwm y mis o Ebrill 2025 ymlaen.
(£500.55 + Treth Incwm y mis) (£6,006.60 + Treth Incwm y flwyddyn)
Cynnig Cyng. R G Parry, eilo Cyng. R R Roberts.

Swyddfa Refeniw a Budddaliadau - Mark Jones.
Praeseptau Cynghorau Cymuned / Thref 2025 / 2026. Band D 430.38.
Y Clerc wedi rhoi amcangyfrif i`r Cynghorwyr o beth oedd balans y flwyddyn Mawrth 2025 yn debygol o fod. Nid oes golwg o ddim byd mawr yn codi ei ben. Dywedodd Cyng. J E Lewis buasai yn syniad am rhoi arian tuag at Cysgodfan Bws newydd yn pentref Bodffordd r`oedd cefnogaeth i hyn. Mae cyflog y Clerc yn ychwanegu £366.60 + Treth Incwm y flwyddyn. Torri y Fynwent Gymunedol yn aros fel ac y mae. Bydd wrth gwrs Gynnal a Chadw. Wedi trafodaeth pasiwyd i godi y praesept eleni, ni fu ychwanegiad llynnedd Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng Miss B Owen.
Trwy gynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng. J E Lewis pasiwyd i godi £15,000 am y flwyddyn (Ychwanegiad o £2,000 y flwyddyn) Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.
Y Clerc a`r Cadeirydd yn arwyddo y ffurflen i`w hanfon i`r Cyngor Sir. Cyng. D T Roberts yn arwyddo am ei fod yn y gadair ar y noson. (Absenoldeb y Caderiydd a`r Is-Gadeirydd)

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2024/223. Cais ol-weithredol ar gyfer cadw cynwysyddion storio ar gyfer defnydd ystafell haf, swyddfa a storio yn:-
   Melin Caradog, Llandrygarn.
   Dim sylwadau.
   Cynnig Cyng. R G Parry eilo Cyng. Miss B Owen.

2. FPL/2025/3. Cais llawn ar gyfer codi garej ynghyd ag estyniad i`r cwrtil yn:-
   Llys Helyg, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. R G Parry.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

3. FPL/2024/219. Cais llawn ar gyfer newidiadau ac estyniadau i`r ty, addasu un storfa a chodi modurdy dwbl arwahan yn:-
   Hen Siop, Llandrygarn.
   Wedi ei dynnu`n ol. Derbyn.

4. HHP/2024/197. Cais llawn i ddymchwel y garej bresennol ynghyd a chodi estyniad ochr a chefn yn:-
   21, Cae`r Delyn, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn.

5. FPL/2024/289. Cais llawn ar gyfer codi garej ynghyd ag estyniad i`r cwrtil yn:-
   Llys Helyg, Bodffordd.
   Wedi`i dynnu`n ol.
   Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Cyngor Mon yn croesawu cynlluniau i sefydlu tasglu newydd yn cynnwys amrywiaeth o randaliaeth er mwyn sicrhau dyfodol Porthladd, Caergybi. Cyhoeddwyd gan Stena Line, Awdurdodau Porthladd Caergybi fod 16eg Ionawr 2025 yn parhau fel dyddiad cyraeddadwy ar gyfer agor.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth.

7. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.
   Cyfarfod nesaf nos fawrth 4ydd Chwefror 2025 am 6.30yh.
   Cyng. J E Lewis fydd yn cynrychioli.

8. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Oriel Mon yn dathlu statws achrediad.
   Yn llwyddo i gadw ei statws fel amgueddfa ac oriel. Y Cynllun rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr. Yn sicrhau bod Amgueddfeydd AA Orielau yn cael eu rheoli yn unol a`r safon sydd wedi ei cael ei chydnabod yn genedlaethol.
   Y Cyngor yn dymuno y gorau iddynt.

GOHEBIAETH (ARALL)

9. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol - Cylchgrawn Ionawr 2025. Cyng J E Lewis yn edrych trwyddo.

RHODDION.

10. Dim.

PLWYFOL.

11. Tap Dwr y Fynwent Gymunedol Bodffordd.
    Rhoi ar y Rhaglen nesaf. Cyng. J Evans ddim yn bresennol.